



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Plas Ogwen

**Plas Ogwen
Bangor
LL57 3PW**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

4 Mai 2022

04/05/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Phlas Ogwen

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd
Lleuedd cofrestredig	27
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus â'r gofal a'r cymorth maent yn eu derbyn ym Mhlas Ogwen. Mae'r staff yn cefnogi'r bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau a diddordebau. Mae'r bobl yn derbyn ymwelwyr ac yn mynd allan i'r gymuned. Mae cynlluniau personol yn cynnwys anghenion unigolion a manylion ar gyfer staff er mwyn iddynt allu diwallu anghenion y bobl. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer diogelu'r bobl a'r staff.

Cefnogir y staff gan y rheolwr. Mae proses recriwtio ar waith sy'n cynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant ac maent yn fedrus yn eu rolau. Mae datblygiad staff mewn perthynas â gwaith goruchwyllo ac arfarniadau yn barhaus ac mae trosglwyddiadau dyddiol a chyfarfodydd staff yn cael eu cynnal i rannu gwybodaeth berthnasol ynghylch llesiant y bobl.

Mae'r adeilad yn ei diroedd ei hun ac yn agos at gyfleusterau cymunedol lleol. Mae'r cartref yn lân ac yn daclus ac mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Mae ardaloedd cymunol a rhai mannau allanol wedi'u haddurno â dodrefn newydd. Mae angen buddsoddi yn yr ardal arlwyyo.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig gofal seibiant a gofal dydd i'r bobl.

Llesiant

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n gefnogol ac yn darparu gofal priodol ar eu cyfer. Mae'r staff gofal yn garedig, yn gwrtais ac yn ymwybodol o anghenion unigol y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau; mae teithiau allan o'r cartref yn cael eu hailgyflwyno yn dilyn y pandemig. Roedd y bobl yn canmol y bwyd a'r gweithgareddau yn fawr.

Gwnaeth y bobl sylwadau cadarnhaol am y gofal y maent yn ei dderbyn, a'u bod yn teimlo bod eu dymuniadau'n cael eu parchu. Gwelsom y staff yn siarad â'r bobl mewn modd urddasol a pharchus. Dywedodd un person wrthym *"Dwi'n hapus iawn yma a dwi'n edrych ymlaen at fynd allan i ymweld â fy ffrindiau,"* a dywedodd rhai eraill wrthym *"Dwi'n hapus iawn yma;"* *"Nid yw'n adref oddi cartref ond dyma'r gorau y gallwch ei gael."*

Gall y bobl ddewis sut a lle i dreulio eu diwrnod. Dywedon nhw y gallan nhw godi a mynd i'r gwely pan fyddan nhw'n dewis a bod amrywiaeth o fwyd yn cael ei gynnig. Gwelsom y bobl yn sgwrsio â'i gilydd a'r staff yn ardal y caffi. Nid oedd unrhyw weithgareddau wedi'u cynllunio yn cael eu cynnal ar ddiwrnod yr arolygiad; fodd bynnag, mae tystiolaeth mewn ffotograffau a'r dudalen cyfryngau cymdeithasol yn dangos bod gweithgareddau amrywiol yn cael eu cynnig.

Mae'n hawdd mynd at y rheolwyr ac mae ganddynt bolisi drws agored. Mae cyfathrebu â'r bobl, y staff a'r ymwelwyr yn dda. Mae'r rheolwr yn gefnogol, ac mae gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth gyda phrosesau ar waith i nodi meysydd i'w gwella. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol amrywiol i'r bobl a'u cynrychiolwyr er mwyn iddynt ofyn cwestiynau a rhoi adborth. Mae gwybodaeth ysgrifenedig gyfredol ar gael am y gwasanaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i amddiffyn y bobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer diogelu'r bobl a'r staff.

Mae'r amgylchedd yn cefnogi pobl i gyflawni safon dda o lesiant. Mae ystafelloedd y bobl yn cynnwys eitemau personol. Mae rhai ardaloedd cymunol wedi'u haddurno a dodrefn newydd wedi'u darparu i wella'r ardaloedd y mae'r bobl yn eu defnyddio. Mae angen adnewyddu'r brif gegin. Roedd y llawr wedi'i staenio ac roedd olion atgyweiriadau anghyson, roedd arwynebau gwaith ac unedau cegin wedi'u difrodi neu wedi torri, ac mae angen cymysgydd bwyd diwydiannol newydd.

Mae'r staff yn dilyn proses recriwtio sy'n cynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol ac yn derbyn yr hyfforddiant ar gyfer bod yn fedrus yn eu rolau.

Darperir y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Roedd y staff yn parchu cefndir diwylliannol a dewisiadau iaith y bobl.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl a'u perthnasau yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau personol ac mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau personol mewn perthynas ag iechyd a llesiant y bobl. Mae'r cynlluniau personol ac asesiadau risg yn adlewyrchu sut byddai'r bobl yn hoffi cael eu cynorthwyo. Mae cynlluniau personol newydd yn glir ac yn darparu staff â gwybodaeth i gefnogi a gofalu am y bobl yn unol â'u hanghenion a nodwyd. Adolygir y cynlluniau personol bob tri mis yn ôl yr angen. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cymryd rhan yn y broses adolygu.

Mae'r bobl yn parhau i fod mor iach ag y gallant fod oherwydd y gofal a ddarperir, atgyfeiriadau amserol at weithwyr iechyd proffesiynol ac oherwydd y rhoddir meddyginiaeth yn effeithiol. Ystyrir anghenion deietegol y bobl ac mae prydau iach, maethlon yn sicrhau bod y bobl yn cadw'n iach. Cadarnhaodd ein harsylwadau o ginio hyn.

Darperir gweithgareddau a chyfleoedd priodol a rheolaidd i'r bobl ddilyn diddordebau neu hobiau. Gwelsom raglenni gweithgareddau wythnosol yn cael eu harddangos, staff yn annog y bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau, a staff yn parchu dewis y bobl i eistedd a darllen neu wyllo'r teledu. Mae'r staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd ystyrlon ac maent yn ymwybodol o hoffterau unigolion mewn perthynas ag adloniant. Mae cofnodion a ffotograffau o weithgareddau a thudalen cyfryngau cymdeithasol ar gyfer rhannu gwybodaeth am y rhain. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn edrych ymlaen at ymweld â ffrindiau yn y gymuned a mynd i'r siopau.

Mae prosesau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae asesiadau risg unigol ar waith ac mae staff yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud yr atgyfeiriad perthnasol i'r awdurdod lleol os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'r bobl maent yn gweithio gyda nhw. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym eu bod nhw'n ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu a bod staff yn derbyn hyfforddiant diogelu cyfredol.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid ac yn rheoli risgiau o ran heintiau. Ers pandemig COVID-19, mae wedi cyflwyno gwybodaeth ychwanegol am y rhagofalon pellach sydd eu hangen i'r staff. Mae arferion diogel yn cael eu cynnal ac mae'r cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei ddarparu i'r staff roi gofal i'r bobl yn ddiogel. Cadarnhaodd staff gofal fod ganddynt fynediad at gyfarpar diogelu personol digonol a dywedodd y bobl sy'n derbyn gwasanaeth eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel gyda'r arferion cyfredol sydd ar waith. Mae ymweliadau yn parhau, ac yn dilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru a pholisi ymweld y cartref, sydd wedi cael ei adolygu yn ystod y pandemig.

Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn gartrefol ac yn gynnes. Mae gan y cartref bedair uned sydd â lle i ddefnyddio cadeiriau olwyn a chymhorthion trosglwyddo. Mae gan bob uned gegin fach sy'n galluogi'r bobl i gael cymorth i baratoi lluniaeth a byrbrydau. Mae'r ardaloedd wedi'u haddurno i safon dda ac roedd eitemau personol o bethau cofiadwy yn yr ystafelloedd unigol. Mae ystafelloedd arbenigol, megis ar gyfer trin gwallt, ar gyfer y bobl sy'n mynychu ar gyfer gofal dydd, ymwelwyr neu ar gyfer sgysiau preifat. Mae pob ardal yn hygyrch i gadair olwyn. Roedd y bobl yn mwynhau lluniaeth yn y caffi yn y cartref. Mae'r cyfleusterau allanol yn cael eu gwella. Dywedodd y bobl fod y cartref yn gyfforddus ac yn lân.

Yn gyffredinol, mae safon gwaith cynnal a chadw'r adeilad yn dda. Mae'r brif gegin yn dangos ôl traul. Mae hyn hefyd wedi'i gydnabod gan yr unigolyn cyfrifol fel rhan o'r ymweliadau rheoleiddio a gwnaed argymhellion i wella'r gegin. Gwnaethom gynghori'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr ein bod yn cymeradwyo'r argymhellion hyn. Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod cyfleustodau, offer a nodweddion diogelwch tân yn cael eu gwirio a'u gwasanaethu'n rheolaidd. Mae gan bob preswlydd gynllun personol ar gyfer gadael mewn argyfwng sy'n benodol i'w hanghenion cymorth unigol.

Mae'r cartref yn ddiogel, a gwiriodd staff ein statws COVID-19 a'n hunaniaeth cyn mynd i mewn. Gofynnir i ymwelwyr â'r cartref ddilyn canllawiau cyfredol ynglŷn â rheoli heintiau. Mae gofal dydd yn cael ei gynnig ar hyn o bryd; ond, mae'r bobl wedi'u cyfyngu rhag defnyddio pob rhan o'r cartref oherwydd y canllawiau COVID-19 sydd ar waith.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau i gynnal goruchwyliaeth o'r gwasanaeth, a phrosesau i fonitro ansawdd y gwasanaeth ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal ymweliadau rheolaidd ac yn trafod preswylwyr, staffio, yr amgylchedd, cwynion, iechyd a diogelwch, a chydymffurfedd. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym ei bod yn hawdd mynd at y rheolwr a'i fod yn darparu cymorth ar lefelau personol a phroffesiynol.

Mae'r bobl yn cael eu cynorthwyo gan wasanaeth sydd â nifer digonol o staff sydd yn ddigon cymwys ac sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd a'r sgiliau i ddiwallu eu hanghenion. Dywedodd y staff eu bod nhw'n cael eu cefnogi gan y rheolwr a'r dirprwy reolwr, a'u bod nhw'n rhan o raglen datblygu staff sy'n cynnwys hyfforddiant, sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau blynyddol. Trefnir cyfarfodydd staff i rannu materion gweithredol megis hyfforddiant ac iechyd a diogelwch a darparu cyfleoedd i staff rannu syniadau ac unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaeth a ddarperir.

Mae cofnodion yn dangos bod gwiriadau gofynnol yn cael eu gwneud cyn cychwyn mewn cyflogaeth. Mae gan y darparwyr broses fetio a dewis ar waith, gan gynnwys cael gafael ar eirdaon. Yn sgil cyfyngiadau'r llywodraeth, nid yw llawer o hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi digwydd ers y pandemig. Darperir cyfleoedd dysgu amgen i'r staff, yn cynnwys hyfforddiant gorfodol a phenodol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant cymorth cyntaf, symud a thrin, diogelu a gofal dementia. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae staff sy'n rhoi meddyginiaeth wedi cael hyfforddiant meddyginiaeth ac wedi pasio prawf cymhwysedd ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Mae rotâu staff yn dangos bod staff digonol ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Cadarnhaodd y staff y siaradwyd â nhw hyn.

Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben, sy'n disgrifio'n glir ar gyfer pwy mae'r gwasanaeth a sut y bydd yn cael ei gyflenwi. Mae'r bobl yn cael gwybodaeth sydd yn disgrifio'r gwasanaeth ac yn rhoi gwybod iddynt sut i wneud cwyn.

Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
44	Nid yw'r gegin yn rhydd o beryglon i iechyd a diogelwch unigolion ac unrhyw bobl eraill a allai fod	Newydd

	mewn perygl, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Nid yw'r gegin yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol.	
--	--	--

Dyddiad cyhoeddi 22/06/2022